

Safonau Siarter Teithio Llesol – trosolwg o'r broses ar gyfer cofrestru a chyflawni Lefelau Rhagfyr 2025

Cofrestru

- Wrth gofrestru i ymrwymo i Safonau'r Siarter Teithio Llesol, mae sefydliadau'n asesu pa gamau gweithredu, os o gwbl, sydd ganddynt eisoes ar waith
- Os yw cyfanswm y camau gweithredu sydd eisoes ar waith yn ddigon o bwyntiau i gyrraedd un o'r lefelau cyflawniad (gweler isod), bydd y sefydliad yn cyrraedd y Lefel berthnasol honno
- Fel arall, os nad yw'r sefydliad eto wedi cyrraedd nifer y pwyntiau sydd eu hangen ar gyfer Lefel 1, dylent ymrwymo i unrhyw gyfuniad o gamau gweithredu sy'n werth o leiaf 15 pwynt, o o leiaf ddau faes thema gwahanol. Gall hyn gynnwys camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cwblhau, a chamau gweithredu sy'n werth 1, 2 neu 3 phwynt. Mae'r sefydliadau hyn yna'n gweithio tuag at statws Lefel 1

Llofnodwyr Siarteri Teithio Llesol (STLlau) presennol (gan gynnwys STLlau rhanbarthol, Siarter Teithio Llesol Busnes a Siarter Teithio Llesol Lefel 2)

- Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar sefydliadau sydd eisoes wedi cofrestru ac yn gweithio tuag at un o'r Siarteri Teithio Llesol presennol i gofrestru ar gyfer Safonau'r Siarter Teithio Llesol.
- Fodd bynnag, gall llofnodwyr presennol ddewis symud yn wirfoddol i Safonau'r Siarter Teithio Llesol ar ôl trafod â'u harweinydd rhanbarthol (os ydynt yn rhan o grŵp rhanbarthol). Gall hyn fod o fudd yn yr amgylchiadau canlynol:
 - Ar ôl iddynt gwblhau gweithredu eu Siarter bresennol
 - I gael hyblygrwydd ychwanegol o amgylch camau gweithredu sy'n addas i'w sefydliad
 - Ar gyfer sefydliadau sy'n cwmpasu mwy nag un rhanbarth o Gymru, er mwyn lleihau dyblygu wrth adrodd a chynyddu cysondeb y dull (gweler y broses benodol ar gyfer sefydliadau aml-ranbarth, isod)
- Mae Safonau'r Siarter Teithio Llesol (STLI) wedi'u cynllunio i ddarparu cywerthedd â'r Siarteri rhanbarthol presennol yn ogystal â llwybr mwy hyblyg ar gyfer gwella yn y dyfodol. Felly ni ddylai fod angen i sefydliad sydd wedi cofrestru ar gyfer Siarter bresennol geisio ail-gymeradwyaeth o fewn proses lywodraethu eu sefydliad i symud ymlaen i Safonau STLI, os ydynt yn penderfynu gwneud hynny.

Cyflawni Lefelau

- Bydd sefydliadau wedi cyflawni Lefel 1, 2 neu 3 ar ôl cwblhau camau gweithredu sy'n werth y nifer canlynol o bwyntiau:

Lefel	Isafswm pwyntiau sydd eu hangen
1	15
2	30
3	45

- Unwaith y bydd sefydliad wedi bodloni un o'r Lefelau, rhaid iddo naill ai:
 - **Gynnal** – cynnal ei sefyllfa bresennol drwy sicrhau y bydd y camau gweithredu presennol y maent wedi'u cyflawni yn parhau i gael eu gweithredu
 - **Wella** – dewis o leiaf 3 cham gweithredu newydd i ddechrau gweithio arnynt, i'w cyflawni o fewn cyfnod o ddim mwy na thair blynedd. Gall y rhain gyfrannu at gyflawni'r **cyflwyniad blynyddol** ar y Lefel nesaf
- Cedwir cofrestr genedlaethol yn rhestru sefydliadau sydd wedi cofrestru i'r Safonau STLI ar hyn o bryd, gan gynnwys y Lefel uchaf (os o gwbl) y mae pob un wedi'i chyflawni. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar y wefan genedlaethol

- Bydd gofyn i sefydliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer Safonau STLI gyflwyno diweddariad blynyddol byr yn dangos eu bod wedi gweithredu'r camau gweithredu y maent yn gweithio arnynt, er mwyn parhau i gael eu cynnwys ar y gofrestr genedlaethol o sefydliadau STLI.

Cymorth i sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r safonau

- Bydd pob sefydliad sydd wedi cofrestru ar gyfer Safonau STLI yn cael ei gefnogi gyda phecynnau cymorth, gweminarau ac adnoddau eraill sydd ar gael yn genedlaethol wedi'u datblygu a'u cefnogi ar y cyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Yn dibynnu ar y capasiti lleol i gydlynu cyfarfodydd, gall sefydliadau hefyd gymryd rhan mewn grwpiau cymheiriaid lleol gyda llofnodwyr STLI eraill yn eu rhanbarth, i rannu arferion da, profiadau a heriau.

Sefydliadau sy'n cwmpasu sawl rhanbarth yng Nghymru e.e. sefydliadau cenedlaethol

- Gall sefydliadau sy'n cwmpasu sawl rhanbarth yng Nghymru ac sy'n cofrestru ar gyfer Safonau STLI ddewis a ydynt am gofrestru ar wahân ar gyfer pob rhanbarth y maent yn ei gwmpasu; neu'n cofrestru unwaith ar lefel genedlaethol.
- Os yn cofrestru ar wahân ym mhob rhanbarth:
 - Dylid dilyn y broses a ddisgrifir uchod
- Os ydych yn cofrestru unwaith ar lefel genedlaethol:
 - Ar gyfer pob cam gweithredu a ddewisir, dylai'r sefydliad nodi a fydd hyn yn berthnasol ar draws **pob** rhanbarth/safle, neu rai yn unig. Yn achos yr olaf, nid oes angen i'r sefydliad nodi ymlaen llaw pa safleoedd y bydd y camau gweithredu'n berthnasol iddynt.
 - Wrth asesu cyfraniad at Lefel benodol, dylai o leiaf ddwy ran o bump (40%) o'r pwyntiau fod o gamau gweithredu a weithredwyd ar draws pob rhanbarth/safle, tra gall y 60% sy'n weddill neu lai fod yn berthnasol i rai safleoedd yn unig:

Lefel	Cyfanswm y pwyntiau lleiaf sydd eu hangen	O'r rhain, pwyntiau gofynnol o gamau gweithredu a weithredwyd ar draws pob rhanbarth/safle (40%)
1	15	6
2	30	12
3	45	18

- Wrth gyflwyno diweddariad blynyddol yn erbyn y camau gweithredu:
 - Dim ond **un** diweddariad sydd ei angen ar y sefydliad cyfan, er y gellir cyflwyno diweddariadau ar gyfer pob rhanbarth os yw hynny'n well ganddynt.
 - Yn achos camau gweithredu sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n berthnasol i rai rhanbarthau/safleoedd yn unig, pan fo cynnydd wedi'i wneud ar y rhain, dylid nodi pa safle(oedd) sydd wedi gweithredu'r cam gweithredu hwn.

Adolygiad o Safonau'r Siarter Teithio Llesol

- O bryd i'w gilydd, bydd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Safonau yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyraeddadwy. O ganlyniad i hyn, efallai y bydd rhai camau gweithredu yn cael eu hychwanegu neu eu dileu. Yn yr achos hwn:
 - Bydd sefydliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer cam gweithredu sy'n cael ei ddileu yn gallu parhau â'r cam gweithredu hwnnw fel eu cyfraniad at y Safonau
 - Gall sefydliadau ddewis gweithio tuag at gamau gweithredu newydd yn lle eu hymrwymadau presennol neu ar ben eu hymrwymadau presennol